***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 749 (Cy.77) (C.51)

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2010

*Gwnaed* - - - - *11 Mawrth 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 40 a 44(3) a (5) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi, dehongli a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2010.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Y penodedig

**2.** 31 Mawrth 2010 yw'r diwrnod penodedig i ddarpariaethau canlynol y Ddeddf ddod i rym–

(a) adran 8(3) (darparu llety a chynhaliaeth i blant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol), Atodlen 2 (addasiadau darfodol o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989)(**2**) ac Atodlen 4 (diddymiadau) i'r graddau y mae'n ymwneud â'r diddymiad ynglŷn ag adran 12 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(**3**); a

(b) adran 34.

(**1**) 2008 p.23.
(**2**) 1989 p.41.
(**3**) 2002 p.38.

*Gwenda Thomas*
Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

11 Mawrth 2010

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn adrannau 8 a 34 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 ac Atodlenni 2 a 4 iddi i rym ar 31 Mawrth 2010 i'r graddau a bennir yn y Gorchymyn.

## NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae darpariaethau canlynol Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 wedi eu dwyn i rym gan Orchmynion Cychwyn a gafodd eu gwneud cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.

| *Y ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *O.S. Rhif* |
|---|---|---|
| Adran 1 o ran Lloegr (yn rhannol) | 16 Chwefror 2009 | 2009/323 |
| Adran 2 o ran Lloegr | 16 Chwefror 2009 | 2009/323 |
| Adran 3 o ran Lloegr | 16 Chwefror 2009 | 2009/323 |
| Adran 5 o ran Lloegr | 16 Chwefror 2009 | 2009/323 |
| Adran 6 o ran Lloegr (yn rhannol) | 12 Chwefror 2009 | 2009/268 |
| Adran 6 o ran Lloegr (y gweddill) | 16 Chwefror 2009 | 2009/323 |
| Adran 8 o ran Lloegr (yn rhannol) | 1 Medi 2009 | 2009/2273 |
| Adran 10 o ran Lloegr (yn rhannol) | 1 Medi 2009 | 2009/2273 |
| Adran 15 o ran Lloegr (yn rhannol) | 1 Medi 2009 | 2009/2273 |
| Adran 16 o ran Lloegr (yn rhannol) | 1 Medi 2009 | 2009/2273 |
| Adran 18 (yn rhannol) | 1 Ionawr 2010 | 2009/3354 |
| Adran 20 o ran Lloegr (yn rhannol) | 12 Chwefror 2009 | 2009/268 |
| Adran 20 o ran Lloegr (yn rhannol) | 1 Medi 2009 | 2009/2273 |
| Adran 21 o ran Lloegr (yn rhannol) | 12 Chwefror 2009 | 2009/268 |
| Adran 21 o ran Lloegr (y gweddill) | 22 Awst 2009 | 2009/2273 |

| *Y ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *O.S. Rhif* |
|---|---|---|
| Adran 22 o ran Lloegr (yn rhannol) | 1 Medi 2009 | 2009/2273 |
| Adran 22 o ran Lloegr (yn rhannol) | 1 Medi 2009 | 2009/2273 |
| Adran 23 o ran Lloegr (yn rhannol) | 1 Ionawr 2010 | 2009/3354 |
| Adran 25 o ran Lloegr (yn rhannol) | 1 Medi 2009 | 2009/2273 |
| Adran 26 o ran Lloegr | 1 Ebrill 2010 | 2009/3354 |
| Adran 27 o ran Lloegr | 1 Ebrill 2010 | 2009/3354 |
| Adran 28 o ran Lloegr | 1 Ebrill 2010 | 2009/3354 |
| Adran 29 o ran Lloegr (yn rhannol) | 1 Medi 2009 | 2009/2273 |
| Adran 31 | 1 Ebrill 2009 | 2009/268 (C.11) |
| Adran 32 | 1 Ebrill 2009 | 2009/268 (C.11) |
| Adran 33 o ran Lloegr | 12 Chwefror 2009 | 2009/268 |
| Adran 34 o ran Lloegr (yn rhannol) | 12 Chwefror 2009 | 2009/268 |
| Adran 34 o ran Lloegr (y gweddill) | 1 Ebrill 2009 | 2009/268 |
| Adran 35 | 6 Ebrill 2009 | 2009/728 (Cy.64) (C.47) |
| Adran 36 o ran Cymru | 1 Medi 2009 | 2009/1921 (Cy.175) (C.91) |
| Adran 37 o ran Cymru | 1 Medi 2009 | 2009/1921 (Cy.175) (C.91) |
| Adran 38 o ran Cymru | 1 Medi 2009 | 2009/1921 (Cy.175) (C.91) |
| Adran 36 o ran Lloegr | 1 Medi 2009 | 2009/2273 |
| Adran 37 o ran Lloegr | 1 Medi 2009 | 2009/2273 |
| Adran 38 | 1 Medi 2009 | 2009/2273 |
| Adran 42 ac Atodlen 4 i'r graddau y maent yn ymwneud â diddymu adran 45(9) o Ddeddf Plant 1989 | 6 Ebrill 2009 | 2009/728 (Cy.64) (C.47) |
| Adran 42 ac Atodlen 4 i'r graddau y maent yn ymwneud â diddymu adran 12(5) a (6) a diddymu yn rhannol adran 91(10) o Ddeddf Plant 1989 | 1 Medi 2009 | 2009/1921 (Cy.175) (C.91) |
| Atodlen 1 o ran Lloegr (yn rhannol) | 1 Medi 2009 | 2009/2273 |
| Atodlen 2 o ran Lloegr | 12 Chwefror 2009 | 2009/268 |

| *Y ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *O.S. Rhif* |
|---|---|---|
| Atodlen 4 o ran Lloegr (yn rhannol) | 1 Ebrill 2009 | 2009/268 |
| Atodlen 4 o ran Lloegr (yn rhannol) | 1 Ebrill 2010 | 2009/3354 |